JOSHUA, SETH (1858-1925), gweinidog (MC)

Enw: Seth Joshua
Dyddiad geni: 1858
Dyddiad marw: 1925
Priod: Mary Joshua (née Rees)
Plentyn: Lyn Joshua
Plentyn: Peter Joshua
Rhiant: Mary Joshua (née Walden)
Rhiant: George Joshua
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog (MC)
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Richard Leslie Jones

Ganwyd 10 Ebrill 1858 yn Nhy Capel (B Cymraeg), Trosnant Uchaf, Pont-y-pwl, Mynwy, yn fab i George Joshua a Mary (ganwyd Walden) ei wraig. Priododd â Mary Rees, Llantrisant yng Nghastell-nedd, Morgannwg, 23 Medi 1883, a bu iddynt wyth o blant (bu un mab, Peter, yn weinidog ac efengylydd poblogaidd yn yr Amerig a mab arall, Lyn, yn gyfrifol gyda Mai Jones am y gân ' We'll keep a welcome '. Mynychodd yr ysgol Brydeinig leol. Bu'n cydweithio'n agos gyda'i frawd Frank yng Nghastell-nedd yn sefydlu'r achos yn y Mission Hall. Yr oedd yn efengylwr o fri gan deithio trwy Brydain a mynd ar daith yn T.U.A. Ordeiniwyd ef yn weinidog (MC) yn 1893 a gweithiodd gyda'r Symudiad Ymosodol, braich Cenhadaeth Gartref y Cyfundeb, yn sefydlu canolfannau efengylu ym Morgannwg a Gwent. Bu farw 21 Mai 1925 a chladdwyd ef ym mynwent y Cyngor, Llanilltud Fach, Castell-nedd.

Brawd iddo oedd FRANCIS JAMES JOSHUA (FRANK; 1861 - 1920), gweinidog (MC). Ganwyd 15 Rhagfyr 1861. Aeth ef a Seth i Gastell-nedd yn 1883 i gynnal Ymgyrch Efengylaidd o dan nawdd y Genhadaeth Rydd, Cinderford. Yn 1901 daeth Eglwys y Genhadaeth Rydd yng Nghastell-nedd o dan nawdd y Methodistiaid Calfinaidd fel cangen o'r Symudiad Ymosodol ac ordeiniwyd ef yng nghymdeithasfa Cilfynydd (MC) yn 1903. Treuliodd ei holl weinidogaeth yng Nghastell-nedd lle y cododd eglwys gref a llewyrchus. Adweinid ef yn y dref fel ' S. Francis of Neath '. Bu farw 13 Medi 1920 yn fab gweddw a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Llanilltud Fach, Castell-nedd.

Awdur

Y Parchedig Richard Leslie Jones

Ffynonellau

T. M. Rees, *Seth Joshua and Frank Joshua, the renowned evangelists* (Wrecsam 1926)

gweler hefyd lyfryn canmlwyddiant Mission Hall, Castell-nedd

Howell Williams, *The Romance of the Forward Movement of the Presbyterian Church of Wales* (Dinbych 1949)

J. Morris-Jones, *Hanes symudiad ymosodol y Methodistiaid Calfinaidd* (Caernarfon 1931)

Annie Pugh Williams, *Adgofion am John Pugh* (Llandysul 1944)

Robert Ellis, *Living echoes of the Welsh revival 1904-5* (Llundain 1951)

atgofion Peter Rhys Joshua yn *Treasury*, 1978

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 25719498

Wikidata: Q7456519

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu